

2016 Rhif 720 (Cy. 192)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A489 (Machynlleth, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed 1 Gorffennaf 2016

Yn dod i rym 6 Gorffennaf 2016

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) a Chefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A489) (“y cefnffyrdd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd Ras yr Iaith a gynhelir ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym i rym ar 6 Gorffennaf 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A489 (Machynlleth, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu;
- (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;
- (iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu mewn darn o ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

- (iv) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y ras" ("*race period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 6 Gorffennaf 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd/cefnffyrdd" ("*the length(s) of the trunk road(s)*") yw:

- (i) y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Heol Pen Rallt, Machynlleth sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A489 wrth Dŵr y Cloc hyd at ei chyffordd â Maes Glas;
- (ii) y darn o gefnffordd yr A489 o'r enw Newtown Road a Heol Maengwyn, Machynlleth sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chraigfryn hyd at ei chyffordd â'r A487 wrth Dŵr y Cloc.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y ras, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am ddiwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Gorffennaf 2016

Richard Morgan

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn aferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.